



Mae hon yn her wych ar gyfer plant ac oedolion ill dau. Cymerwch olwg o gwmpas mynwent fach yr eglwys; mae'r cerrig beddau yn cynnig syniad inni o'r gorffennol ac o hanesion bywyd y rhai hynny sydd wedi'u claddu yma. Ond fe allen nhw ein sbarduno i ddychmygu straeon newydd hefyd, i'w hysgrifennu a'u hadrodd wrth ein gilydd, neu hyd yn oed eu postio ar Facebook!

Ceisiwch weld os gallwch chi feddwl am stori ynglŷn â rhai o'r bobl eraill sy'n gorffwys yma.

Cyn i chi ddechrau



Sut i gyrraedd yno

Mae'r antur hon yn digwydd yn Eglwys Sant Tysilio, ger pentref Bryneglwys, oddi ar yr A5104. Mae'n braidd yn anodd dod o hyd i'r eglwys, felly os ydych chi'n teithio ar hyd yr A5104 o Gorwen, ar ôl rhyw 7 milltir fe welwch arwydd ar gyfer Bryneglwys. Ewch ar hyd y ffordd hon nes i chi ddod at dai gwyn a adeiladwyd yn ddiweddar. Fe welwch gae chwarae i blant ar y chwith; gallwch barcio wrth ymyl hwn. Os wnewch chi sefyll gyda'ch cefn at y cae chwarae ac edrych i'r chwith, fe welwch gip o giatiâu haearn gyda bwa bach ar eu pen, mewn rhodfa fach rhwng dau dŷ. Mae'r eglwys ychydig ymlaen o'r rhain.

Côd post:

LL21 9LL

Gwybodaeth Trafnidiaeth Gyhoeddus:

I gael gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, ffoniwch Traveline Cymru ar 0871 200 2233 neu Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol ar 0845 60 40 500.

Man dechrau'r gweithgaredd:

Mae'r gweithgaredd hwn i gyd yn digwydd yn iard yr eglwys, felly dechreuwch wrth sefyll y tu allan i brif fynedfa'r eglwys.

Gadewch i ni gychwyn

Yn ôl y sôn mae yna eglwys wedi bod ar y bryn hwn ym Mryneglwys ers yn gynnar yn y seithfed ganrif. **(1)**

Yn aml, y bobl a fyddai'n addoli yn yr eglwys a fyddai'n ei hadeiladu ac yn talu amdani hefyd, ac felly mae eglwysi yn cynnig cipolwg inni o sut yr oedd pobl yn dod at ei gilydd i weddïo, i ddathlu ac, wrth gwrs, i gladdu eu meirw. Mae'r gweithgaredd hwn i gyd yn ymwneud â dod â'r gorffennol yn ôl. Gan ddefnyddio'r enwau a'r dyddiadau ar y cerrig beddi, a allwch chi feddwl am stori ynglŷn â'r bobl y maen nhw'n eu cofio?

Os sefwich chi gan wynebu'r eglwys, a throi tuag at ochr dde'r fynwent, fe ddylech chi allu ddod o hyd i fedd Elizabeth Griffiths. Dydi o ddim yn un hawdd iawn i'w leoli serch hynny, gan fod y garreg wedi'i gwisgo'n sylweddol. Bu farw yn 1900, gyda'i gŵr James yn ei dilyn deng mlynedd yn ddiweddarach. Dim byd rhyfedd yn hynny o beth; ond pam, dywedwch chi, y cafodd eu nai 24 oed, John Branston, ei gladdu efo nhw flwyddyn yn ddiweddarach? Pam yr oedd o wedi dod i fyw efo'i nain a'i daid? A pham fuodd o farw mor ifanc?

Ond nid stori drist sydd gan bob bedd i'w hadrodd. Cymerwch Evan Williams, er enghraifft. Bu farw yn 1772, wedi iddo fyw hyd at yr oedran mawr o 72 mlwydd oed, oedd yn eithriadol o hen yn y dyddiau hynny. Fe welwch ei fedd ar ochr arall yr iard i fedd Elizabeth (ac mae'r ysgrifen ar hwn yn llawer cliriach!).

Sut fywyd ydych chi'n meddwl y cafodd o? A oedd o, fel gymaint o ddynion eraill yn yr ardal hon, yn ffermwr defaid? Neu a oedd o'n gweithio yn y chwareli llechi? Pam cafodd ei gladdu ar ei ben ei hun? Ac ydych chi'n meddwl bod yna gyfrinach i'w fywyd hir?



Faint o amser fydd y gweithgaredd hwn yn gymryd?

Ni ddylai gymryd llawer iawn o amser i chi ddod o hyd i'r holl feddi rydan ni'n sôn amdany'n nhw (20 munud i hanner awr), ond mae'n bosib y byddwch chi eisiau treulio ychydig mwy o amser yn crwydro y tu mewn i'r eglwys.



Beth fydd ei angen arnoch

Llyfr nodiadau a phen sgwennu, neu eich ffôn symudol er mwyn gwneud nodyn o bethau.



Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae'r eglwys ar agor y mwyafrif o foreau ond mae'n cael ei chloi eto yn y prynhawn.

Byddwch yn ymwybodol fod tir yr eglwys yn gallu bod braidd yn anwastad, a dydi o ddim pob tro'n addas ar gyfer bygis neu bramiau.



Mynd yn ôl i'r dechrau

Er mwyn cerdded yn ôl at y car, dilynwch y llwybr bach sy'n arwain i ffwrdd o'r eglwys, ac yn ôl i gyfeiriad y cae chwarae.



Be' ydych chi'n feddwl?

Dywedwch wrthyn ni be' oeddech chi'n ei feddwl o'r gweithgaredd hwn a rhannwch rhai o'ch lluniau a'ch straeon ar y dudalen Facebook Darganfod Sir Ddinbych.



Pam na wnewch chi nodi'r manylion allweddol o'r cerrig beddi, yn ogystal â rhywbeth ynglŷn â'r teimlad a gewch o fod yn y fynwent, neu nodweddion o garreg fedd a'ch tarodd chi, fel y byddwch yn gallu creu eich stori yn ddiweddarach? (2)

Roedd teuluoedd cefnog yn cyfrannu'n fawr tuag at gefnogi eu heglwys leol, ac felly y bu hi gyda Sant Tysilio hefyd. Y teulu enwocaf i gael ei ddathlu yma ydi'r teulu lâl, ac fe ychwanegon nhw eu capel eu hunain hyd yn oed, yn 1575.

Roedd y teulu lâl yn rhan o grŵp crefyddol o'r enw Piwritaniaid. Yn anffodus iddyn nhw, roedd yn gas gan y Brenin Charles I y Piwritaniaid, ac felly yn 1630 fe benderfynon nhw ddianc i'r Byd Newydd, neu i America fel rydyn ni'n ei alw erbyn hyn.

Fe ddychwelon nhw yn 1651 ar ddiwedd Rhyfel Cartref Lloegr, pan roedd Oliver Cromwell, a oedd hefyd yn Biwritan, wedi cymryd rheolaeth o Loegr. Roedd gan y teulu aelod newydd hefyd, mab o'r enw Elihu, ac yn 1670 fe aeth i weithio yn India gyda'r Cwmni Dwyrain India enwog.

Fe ddangosodd ei hun i fod yn ddydd busnes penigamp a phan ddychwelodd i Loegr 27 mlynedd yn ddiweddarach, roedd wedi creu ffortiwn enfawr iddo fo'i hun. Fe aeth hanes ei gyfoeth ar led, ac fe dderbyniodd lythyr o America yn gofyn iddo a fyddai'n rhoi ychydig o arian tuag at goleg yn agos at y lle y cafodd ei fagu. Fe gytunodd Elihu a rhoi £1,162, a dyna ddechrau Coleg lâl, sydd erbyn heddiw yn un o brifysgolion enwocaf y byd.

Beth ydych chi'n feddwl ydi'r stori y tu ôl i'r groes fach ddiennw yng nghanol y fynwent, y tu ôl i'r eglwys? Ai ar gyfer dieithryn a oedd yn pasio drwy'r pentref oedd hi? Neu, yn syml, efallai nad oedd yna neb i dalu am garreg fedd go iawn? (3)



Efallai mai'r bedd tristaf ydi'r un sy'n perthyn i'r teulu Edward - welwch chi o? Chwe aelod o'r un teulu, oll wedi'u claddu gyda'i gilydd, ac Edward y tad druan yn byw'n hirach na'i wraig a phedwar plentyn. Beth ydych chi'n feddwl fu eu hanes nhw?

Os oes digon o fanylion gennych chi, rhowch gynnig ar ysgrifennu hanes teuluol ynglŷn ag un o'r beddi. Ydych chi'n meddwl bod bywyd yn galed yng nghefn gwlad Cymru yn ystod y dyddiau cyn bod yna drydan na dŵr tap? A pham ydych chi'n meddwl fod eglwysi mor bwysig i bobl bryd hynny?

Efallai eich bod chi hefyd eisiau tynnu llun o sut rydych chi'n meddwl roedd y bobl yn edrych.

Cofiwch, mae rhannu straeon yn wych - felly pan fyddwch chi wedi gorffen fe allwch chi bostio eich stori o Sant Tysilio ar dudalen Facebook Darganfod Sir Ddinbych (chwilwch am Darganfod Sir Ddinbych).

Peidiwch anghofio am

Gan eich bod yn yr ardal, mae llawer o fannau eraill arbennig y gallech ymweld â nhw...

Corwen

Calon tiriogaeth Owain Glyndŵr yw Corwen, ac mae'r lle yn dal â chysylltiadau cadarn ag arwr cenedlaetholdeb Gymreig. Ewch ar sgowt i chwilio am eglwys ysblennydd Sant Mael a San Sulien, â'i mynwent llawn awyrgylch. Mae canol y dref yn fan cychwyn sawl taith gerdded benigamp - i fyny i'r goedwig uwchlaw'r dref, ac i Gaer Drewyn, un o'r bryngaerau Oes Haearn gorau ei chyflwr yng Nghymru.

Mae Corwen ar yr A5, 12 milltir o Langollen.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.darganfodsirddinbych.co.uk

Sant Elidan, Llanelidan

Saif pentref Llanelidan ynghanol y bryniau ym mhegwn deheuol Dyffryn Clwyd. Mae Sant Elidan, a adeiladwyd yn y 15fed ganrif, yn enghraifft wych o eglwys ac iddi ddau 'gorff' fel rhan o'r adeilad; gwelir yma bod eglwys newydd wedi ei hychwanegu wrth ochr yr eglwys wreiddiol. Ar waethaf gwaith adnewyddu a wnaed yn Oes Fictoria, mae yma lawer o nodweddion hynafol i'w mwynhau, gan gynnwys adrannau o groglen (sgrin y grog) ganoloesol, a arferai wahanu'r gynulleidfa oddi wrth yr allor. Allan yn y fynwent, chwiliwch am fedd Coch Bach y Bala, Houdini Cymru, gŵr a ddihangodd droeon dirifedi o garchardai ar draws Gogledd Cymru.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.cpat.demon.co.uk/projects/longer/churches/denbigh/16842.htm

Sant Mael a San Sulien

Gadawodd Owain Glyndŵr ei farc ar yr eglwys Gymreig ddarluniadwy hon, lle sy'n tanio diddordeb ac sy'n gorlifo o hanes. Dywedir bod y groes sydd i'w gweld ar y lintel enfawr garreg uwchben y drws ar ochr ddeheuol yr eglwys wedi ei llunio gan ei ddagr a daflwyd mewn cynddaredd o Ben y Pigyn, i fyny ar y llethr coediog uwchlaw'r eglwys.

Mae'r eglwys yn dyddio'n ôl i ddiwedd y 15fed Ganrif, ac er i'r rhan fewnol gael ei hadnewyddu yng nghyfnod Fictoria, mae cist enfawr o'r 17eg Ganrif yn dal yno, ac mewn cilfach ger yr allor ceir cofeb nadd i ficer o'r 15fed Ganrif.

Saif yr eglwys mewn mynwent yn llawn o goed yw, rhyw ychydig yn ôl o'r brif stryd yng nghanol Corwen.

Bryngaer Caer Drewyn

Yn wahanol i fryngaerau eraill yn yr ardal, nid oes gan Gaer Drewyn gloddiau pridd neu ffosydd enfawr o'i hamgylch. Yn lle hynny ceir mur mawr o gerrig sychion, ac mae gweddillion y mur hwnnw i'w gweld hyd heddiw. Parhawyd i ddefnyddio'r gaer ymhell wedi diwedd yr Oes Efydd, ac yn ôl y chwedl, yn y fan hon y casglodd Owain Glyndŵr ei filwyr ynghyd ar ôl iddo gyhoeddi ei hun yn Frenin Cymru yn 1400.

Mae'r cyfleusterau parcio agosaf ar safle'r pwll nofio lleol sydd wedi'i leoli ar y B5437, gyferbyn â phen-draw'r bont dros Afon Dyfrdwy, ar yr A5. Gellir cyrraedd y safle ar hyd llwybr cyhoeddus sydd wedi'i arwyddo ar y B5437, drws nesaf i'r pwll nofio.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i

www.denbighshirecountryside.org.uk/y-grug-ar-caerau/

Trên Stem Llangollen

Roedd y gamlas ond yn un o'r ffactorau a drodd Llangollen yn ganolfan cludiant mor bwysig ym Mhrydain Oes Fictoria. Cyrhaeddodd y rheilffordd y dref yn 1848 ac roedd yn destun cryn gyffro i wibdeithwyr fyddai'n cyrraedd yma yn eu miloedd i anadlu'r awyr iach a mwynhau'r golygfeydd ysblennydd. Caewyd y lein a'r orsaf yn 1965 ac fe'u gadawyd i ddadfeilio hyd nes i selogion fynd ati i'w hail-agor yn yr 1970au fel cyrchfan boblogaidd i dwristiaid. Erbyn heddiw, adferwyd harddwch yr orsaf, ac mae ganddi ystafell de ac amserlen reolaidd o deithiau ar hen injans stêm.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.llangollen-railway.co.uk neu ffoniwch 01978 860979

Plas Newydd

Am bron 50 mlynedd, roedd y bwthyn du a gwyn unigryw hwn yn gartref i Sarah Ponsonby a'r Foneddiges Eleanor Butler, sef 'Boneddigesau Llangollen'.

Treuliodd y ddwy eu 'hymddeoliad melys a braf' ym Mhlas Newydd, yn darllen, ysgrifennu a phaentio. Daeth y gwagedd yn enwogion eu hoes, gyda beirdd rhamantaidd fel yr Arglwydd Byron a Wordsworth, yn ogystal â Dug Wellington, ymhlith eu hymwelwyr.

Perchnogion diweddarach roddodd i'r tŷ ei arwyneb Gothig ond y Boneddigesau fu'n gyfrifol am gasglu'r holl gerfweithiau derw sy'n llanw'r lle. Mae'n werth mynd am dro drwy'r gerddi hefyd, ac yn ogystal â'r rhain mae yma gaffi a llain fowlio.

Plas Newydd, Stryd y Rhiw, Llangollen, Sir Ddinbych, LL20 8AW.

Ymholiadau cyffredinol, bwciadau neu achlysuron arbennig, ffoniwch: 01978 862834 (Ebrill – Medi), neu 01824 708274 (Hydref – Mawrth), os gwelwch yn dda.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.sirddinbych.gov.uk/treftadaeth